

Diwrnod ym Mhortmeirion

Bu'r Diwrnod Agored ym Mhortmeirion yn hynod lwyddiannus. Daeth trigain o aelodau yno i wrando ar ddarlithoedd gan y Parch Huw Jones, Rhuddlan, Y Parch Towynd Jones, Caerfyrddin a'r Bonwr Dei Tomos. Bydd eu cyfraniadau yn ymddangos yn *Y Casglwr*, maes o law.

Gwenodd yr haul arnom a chafwyd cyfle i fwynhau'r pentref neilltuol hwn yn ystod yr egwyl dros ginio a chael modd i fyw wrth fyseddu'r cyfrolau oedd ar werth yno.



Y Golygydd; Y Parchedigion Towynd a Huw Jones, Y Bonwr Dei Tomos a Rheinallt Llwyd, (Cadeirydd y Gymdeithas)




Rhiannon ac Elisabeth Ellis yn sgwrsio



Y Trysorydd a'r merched yn trafod y raffl

FFURFLEN DANYSGRIFIO



Mae tanysgrifiad Cymdeithas Bob Owen yn codi i £10 y flwyddyn. Cofiwch lenwi'r ffurflen amgaeedig a'i gyrru yn ddiymdroi i

GWYNDAF ROBERTS,
Cae'r Hafod, Maes Caled,
Dolgellau, Gwynedd LL40 1UF

Rydym yn dibynnu arnoch.

DARLITH EISTEDDFOD 2007

Cynhelir darlith Cymdeithas Bob Owen ar Ddydd Mercher, 8 Awst am 3:00 yn y Stiwdio

Bydd Dr Goronwy Wynne yn darlithio ar

**"THOMAS PENNANT –
Y GWR OEDD YN NABOD PAWB"**

Cadeirydd: Rheinallt Llwyd